# Asesiad Strwythuredig 2022 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3282A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Negeseuon allweddol | 4 |
| Argymhellion | 6 |

Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Trefniadau llywodraethu | 8 |
| Trefniadau cynllunio strategol | 16 |
| Rheoli adnoddau ariannol | 20 |
| Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill | 24 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Ymagwedd archwilio | 29 |
| Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio | 32 |

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Digwyddodd ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a achoswyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheoli ariannol; a threfniadau i reoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Caiff yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym i wneud ein gwaith ei chrynhoi yn **Atodiad 1**.

## Negeseuon allweddol

4 Ar y cyfan, canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella agweddau ar ei threfniadau llywodraethu corfforaethol, ond bod angen gwaith pellach i ddarparu'r her fewnol gref a'r dylanwad allanol parhaus sy'n ofynnol i oresgyn rhai o'r heriau gweithredol digynsail y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd.**

5 Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus, hunanfyfyrio a chlywed yn uniongyrchol gan gleifion a staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llenwi swyddi allweddol ar lefel y Bwrdd yn effeithiol yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Cadeirydd newydd ac mae'r broses ar gyfer recriwtio Is-Gadeirydd newydd yn mynd rhagddi. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn briodol ac fe'u hategir gan Gynlluniau Dirprwyo eglur. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fireinio'i threfniadau llywodraethu, megis datblygu cylchoedd busnes. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â

gwella amseroldeb cyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau a chynyddu tryloywder cyhoeddus penderfyniadau a wneir yn sesiynau preifat y Bwrdd.

6 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei fframwaith risg. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei risgiau corfforaethol yn rheolaidd, mae'r sgoriau ar gyfer nifer o risgiau arwyddocaol wedi aros yn ddigyfnewid er gwaethaf camau lliniaru dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn awgrymu nad yw camau lliniaru i leihau'r risg wastad yn cael yr effaith a ddymunir. Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth reolaidd am effaith methiannau systemau ehangach ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ei hun a phryderon cysylltiedig ynghylch ansawdd ar gyfer cleifion. Gan gydnabod bod nifer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i geisio cyfleoedd i ddylanwadu ar ei phartneriaid i sicrhau gwelliant yn ogystal â chanolbwyntio ar effaith camau gweithredu a gymerir yn lleol i ymdrin â'r materion hyn. Mae angen ymateb yn well hefyd i bryderon a phrofiadau gwael a gaiff eu cyfleu yn yr adroddiad ar brofiadau cleifion.

7 Mae gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth hirdymor a strategaeth glinigol a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sydd wedi'u gwreiddio yn iechyd y boblogaeth ac wedi'u halinio â strategaethau cenedlaethol allweddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gwireddu ei dyheadau tymor hwy'n dibynnu ar ymrwymiad partneriaid, felly rhaid i ymgysylltu allanol ddal i fod yn flaenoriaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig mantoledig a chymeradwy ar gyfer 2022-2025, sydd â cherrig milltir clir ac sydd wedi'i alinio'n dda â chynlluniau allweddol. Mae'r dull cynllunio'n creu llinell welediad i fframweithiau strategol cyfunol yr Ymddiriedolaeth gael eu monitro'n chwarterol trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd, gyda hynny'n cael ei ategu gan fonitro manwl ar gyfer rhaglenni allweddol. Fodd bynnag, mae angen gwella ymwneud staff â'r broses gynllunio.

8 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol ar gyfer 2021-22 ac mae ganddi gynllun ariannol eglur ar gyfer 2022-25. Er bod cynllun arbedion eleni'n cynnwys ffocws cynyddol ar arbedion trawsnewidiol, mae cyfleoedd o hyd i leihau'r ddibyniaeth ar reoli swyddi gwag fel modd i ostwng costau anghylchol byrdymor. Mae'r materion system-gyfan tra hysbys sy'n cyfrannu at oedi sylweddol wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys mewn achosion brys yn arwain at aneffeithlonrwydd ariannol sylweddol i'r Ymddiriedolaeth hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â systemau rheolaeth ariannol da ac mae adroddiadau ariannol y sefydliad yn eglur ac yn dod gerbron y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn rheolaidd.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen eang i gefnogi lles staff yr ymddengys ei bod yn cael ei defnyddio'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwerthuso effaith y gwasanaethau hyn eto i sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Mae rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn faes ffocws allweddol, ond mae cyfraddau'n dal i fod yn uchel iawn yn enwedig ymhlith aelodau o staff yr Ymddiriedolaeth mewn Gwasanaethau Meddygol Brys. Mae strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth yn cael ei rhoi ar waith ond mae cyfle i gryfhau a gwella goruchwyliaeth ar ei rhaglen ddigidol yn ei chrynswth. Mae'r

Ymddiriedolaeth yn bwriadu blaenoriaethu buddsoddiad yn yr ystâd ond mae'n wynebu heriau am bod llai a llai o gyllid cyfalaf ar gael. Rhaid iddi fynd ati, ar yr un pryd, i sicrhau penderfyniadau strategol priodol i gefnogi anghenion tymor hwy o ran ystadau ac agenda ddatgarboneiddio'r sefydliad.

# Argymhellion

10 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2022**

**Llywodraethu gweinyddol**

A1 Rydym wedi adnabod cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth gynyddu tryloywder ymhellach trwy gryfhau trefniadau llywodraethu gweinyddol trwy:

a) Sicrhau bod papurau pwyllgorau cyn cyfarfodydd a chofnodion yn dilyn diwedd cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol i wefan yr Ymddiriedolaeth;

b) Gwella'r modd y cofnodir camau gweithredu gan y Cadeirydd a phenderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat, er enghraifft trwy nodi'r costau a'r risgiau i gyflawni mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed;

c) Darparu'r datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch fel dogfen benodol sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld; ac

d) Ailystyried cael yr holl wybodaeth atal twyll yn sesiwn breifat y pwyllgor archwilio.

**Adrodd ar brofiad cleifion**

A2 Gwella'r modd yr adroddir yn chwarterol ar brofiad cleifion wrth y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch (QuESt) trwy sicrhau cydbwysedd rhwng adborth cadarnhaol a negyddol a darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r themâu negyddol sy'n codi yn yr adroddiad.

**Cynnwys staff yn y broses o ddatblygu cynlluniau allweddol yn y dyfodol**

A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei chynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys y CTCI, yn cael eu datblygu gyda staff ac yn cael eu goleuo ganddynt.

**Datblygu cynlluniau cyflawni ymgysylltu**

A4 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ei fframwaith ymgysylltu lefel-uchel yn ddiweddar, dylai geisio mynd ati ar frys i gyhoeddi a chyflawni cynlluniau manwl i roi cymorth iddi ddarparu ymgysylltiad allanol mewn perthynas â phwysau'r system gofal heb ei drefnu.

**Sicrhau bod gwasanaethau lles staff effeithiol yn cael eu gwerthuso**

A5 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi lles staff, nid yw'n ei gwerthuso nac yn ei hadolygu'n ddigonol ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion staff. Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno proses reolaidd i werthuso'i gwasanaethau lles staff, megis trwy arolygon pwls neu holiaduron i gyfranogwyr. Dylai'r gwerthusiad hwn oleuo penderfyniadau hirdymor ynglŷn â buddsoddi ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, gyda ffocws arbennig ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn ategu llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

12 Canfuom fel a ganlyn: **er y bu newidiadau diweddar mewn arweinyddiaeth, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael ei harwain yn dda. Gan gydnabod bod trefniadau llywodraethu'n gwella, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau hefyd i geisio cyfleoedd i ddylanwadu a chydweithio gyda phartneriaid allweddol i helpu i ddatrys rhai o'r heriau sylweddol o ran perfformiad ac ansawdd y mae'n eu hwynebu.**

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau

13 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn ategu llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
- a yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn briodol gan gael eu hategu gan Gynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chofrestrau o Fuddiannau eglur;
- a oes strwythur pwyllgorau sy'n briodol ac yn gweithio'n dda islaw'r Bwrdd;
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cael yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn gan staff a defnyddwyr gwasanaethau; ac
- a oes tystiolaeth o hunanadolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

14 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau llywodraethu; fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau'r lefel o graffu a her a ddarperir gan Gyfarwyddwyr Anweithredol.**

15 Mae'r Bwrdd yn dangos ymrwymiad da i dryloywder cyhoeddus. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth gyfarfodydd rhithwir gan y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y pandemig ond mae wedi dychwelyd at gyfarfodydd yn y cnawd gan y Bwrdd ers haf 2022. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarlledu cyfarfodydd ei Bwrdd ar-lein dros Zoom a Facebook ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol yn y cnawd. Mae'r Bwrdd yn mynd ati'n weithredol i geisio a thrafod cwestiynau gan y cyhoedd. Mae cyfarfodydd pwyllgorau'n dal i gael eu cynnal yn rhithwir; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio i'r cyhoedd eu gweld, sy'n cynyddu pwysigrwydd cyhoeddi cofnodion drafft a therfynol mewn modd amserol.

16 Ceir rhaniad priodol o ran eitemau a drafodir yn sesiynau cyhoeddus a phreifat y Bwrdd ac mae ei Nodyn Ymarfer Llywodraethu newydd yn egluro'r meini prawf ar

gyfer eitemau ar yr agenda a ddylai gael eu hystyried yn y sesiwn breifat. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer adrodd yn gyhoeddus ar gamau gweithredu gan y Cadeirydd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd mewn sesiwn breifat, er enghraifft trwy ddarparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau i gyflawni sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau a wnaed (gweler **Argymhelliad** 1). Rydym hefyd yn nodi bod y Pwyllgor Archwilio'n cael ei ddiweddariad atal twyll yn sesiwn breifat y pwyllgor. Oni bai ei bod o'r farn bod yr adroddiad fel rheol yn cynnwys gwybodaeth sensitif, dylai'r Ymddiriedolaeth ailystyried cael naill ai rhan neu'r cyfan o'r diweddariad mewn sesiwn gyhoeddus i gynyddu tryloywder (gweler **Argymhelliad 1**).

17 Ni threfnir bob amser bod papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau ar gael cyn cyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Fe wnaethom nodi achosion o oedi cyn cyhoeddi rhai o bapurau'r Bwrdd a Phwyllgorau ar wefan yr Ymddiriedolaeth.[1] Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth broses ar hyn o bryd i gofnodi papurau hwyr, ond mae'n datblygu Cylchoedd Busnes y Bwrdd a Phwyllgorau, a ddylai arwain at well dealltwriaeth gyffredin ynghylch pa bapurau a ddisgwylir erbyn pryd. Canfu ein hadolygiad ni o bapurau hefyd nad yw rhai cofnodion wedi'u cadarnhau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth mewn modd amserol (gweler **Argymhelliad 1**).[2]

18 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n goruchwylio'r adolygiad blynyddol o Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth mewn modd priodol, gan gynnwys y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo sy'n gyfoes ac yn gyson â'r strwythur sefydliadol. Ni chafodd unrhyw achosion o dorri'r rhain eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor yn ystod 2021-22. Mae Rheolau Sefydlog yn darparu gofynion eglur ar gyfer cofnodi rhoddion a lletygarwch, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen cryfhau'r broses a chynyddu cydymffurfiaeth ymhlith staff. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau gweithredu i gryfhau ei phrosesau ar gyfer datganiadau o fuddiant, rhoddion, lletygarwch a nawdd. Unwaith y bydd y gwaith yma wedi'i gwblhau, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau hefyd bod ei chofrestr o roddion ar gael yn gyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Argymhelliad 1**).

19 Mae'r pandemig a chapasiti cyfyngedig yn Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd wedi effeithio'n sylweddol ar adolygu polisïau mewn modd amserol. Mae offeryn tracio polisïau'r Ymddiriedolaeth yn dangos bod llawer o bolisïau'n hwyr yn cael eu hadolygu, gan gynnwys polisi'r Ymddiriedolaeth ar bolisïau. O ystyried y broses drylwyr a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i adolygu ei pholisïau, mae'n debygol y bydd yn cymryd peth amser i ddiweddaru'r holl bolisïau. Mae Swyddfa

[1] Cafodd papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 28 Gorffennaf 2022 eu cyhoeddi ar 25 Gorffennaf 2022. Cafodd papurau'r Pwyllgor Partneriaeth Academaidd ar gyfer y cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2022 eu cyhoeddi ar 1 Awst 2022.

[2] Ar adeg ein gwaith maes, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dair set o gofnodion terfynol ar wefan yr Ymddiriedolaeth (cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer Bwrdd a Phwyllgor Partneriaeth Academaidd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2022 a chofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Ebrill 2022)

Ysgrifennydd y Bwrdd yn amcanu at ymdrin â'r ôl-groniad o bolisïau sy'n hwyr yn cael eu hadolygu, ac mae hefyd yn ceisio rhoi anogaeth ar gyfer mwy o berchnogaeth leol ar bolisïau o fewn cyfarwyddiaethau a allai leihau achosion o oedi yn y dyfodol.

20 Bu trosiant sylweddol o ran aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda Chyfarwyddwr Anweithredol newydd a thri Chyfarwyddwr newydd wedi'u penodi. Mae Cadeirydd newydd yn ei swydd erbyn hyn ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio penodi Is-Gadeirydd newydd. Mae rhaglen sefydlu gynhwysfawr newydd ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio'n sicrhau bod aelodau newydd yn meddu ar wybodaeth dda ac yn cael eu cefnogi pan ydynt yn dechrau yn eu rolau. Mae gan aelodau'r Bwrdd gymysgedd da o sgiliau i gyflawni eu rolau.

21 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ddwy Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn 2021, a hwyluswyd gan ddarparwr allanol. Roedd adborth ar y rhaglen yn dynodi, er bod y sesiynau hyn o gymorth, y dylai'r Bwrdd gwmpasu ystod ehangach o faterion. Ers 2021, mae holl Sesiynau Datblygu'r Bwrdd wedi bod yn cael eu hwyluso'n fewnol gan ddefnyddio amserlen flynyddol wedi'i ffurfioli sy'n newid yn ôl ac ymlaen rhwng pynciau strategol a phynciau sicrwydd/dysgu. Mae'r Bwrdd wedi hunanasesu ei effeithiolrwydd ac ni chanfu unrhyw anghenion dysgu o bwys. Yn dilyn cyrhaeddiad y Cadeirydd newydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd ac yna bydd yn ystyried a oes angen iddi gomisiynu rhaglenni Datblygu'r Bwrdd allanol pellach i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ganfuwyd.

22 Mae'r strwythur pwyllgorau'n effeithiol ac yn gweithio'n dda. Mae'r drefn weinyddol yn gweithredu'n briodol gyda datganiadau yn ychwanegol at y datganiadau sefydlog a gymerir ar ddechrau pob cyfarfod. Fe wnaeth pob Pwyllgor gynnal hunanasesiad ac adolygu eu Cylchoedd Gorchwyl yn ystod 2021-22, gan egluro'u rolau ac aelodaethau yn y broses. Cafodd yr hunanasesiadau a'r cylchoedd gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2022, ac mae'r cylchoedd gorchwyl ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Canfu ein harsylwadau ar bwyllgorau fod cyfarfodydd yn rhedeg yn briodol gydag agendâu'n cwmpasu'r risgiau pwysicaf i'r Ymddiriedolaeth gan sicrhau hefyd bod hyd cyfarfodydd yn dal i fod yn ddichonadwy. Mae hyn wedi cael ei wella ymhellach gan adolygiadau diweddar o flaenoriaethau Pwyllgorau. Mae cyflwyno adroddiadau sicrwydd newydd ar gyfer Pwyllgorau wedi bod yn gam cadarnhaol hefyd o ran amlygu materion allweddol a hwyluso llifoedd sicrwydd o Bwyllgorau i'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth pob Pwyllgor uwchgyfeirio'u pryderon arwyddocaol ynghylch perfformiad ac ansawdd gwasanaethau yng nghyd-destun pwysau'r system gofal heb ei drefnu at y Bwrdd. Trafododd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gamau gweithredu i liniaru niwed osgoadwy i gleifion yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022, gan nodi camau gweithredu yr oedd angen i'r Ymddiriedolaeth a phartneriaid ehangach eu cymryd i leihau'r risg o niwed i gleifion. Er bod nifer o gamau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith o safbwynt yr Ymddiriedolaeth dros y

misoedd diwethaf, nid ydynt yn gallu gwrthbwyso effaith oedi cynyddol wrth drosglwyddo cleifion.

23 Canfu ein harsylwadau ni ar y Bwrdd a Phwyllgorau fod perthnasoedd cyfunol a chydlynol da rhwng Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Anweithredol. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn dangos ymagwedd gefnogol iawn gydag Uwch Swyddogion. Er bod ymagwedd o'r fath yn gadarnhaol, ceir risg y gallai arwain at golli cyfleoedd i gefnogi gwelliant. Canfu ein harsylwadau ni ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i bwyllgorau lai o herio a chraffu gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, o'i gymharu â lefel yr her a ddarperir gan Aelodau Annibynnol yng nghyrff eraill y GIG. Er nad ydynt yn goddef perfformiad gwael, mae angen i Gyfarwyddwyr Anweithredol ddarparu her gryfach i gael eu sicrhau'n llawn bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol sydd o fewn ei rheolaeth i fynd i'r afael â meysydd lle mae ansawdd gwasanaethau'n wael. Mae angen iddynt sicrhau hefyd y darperir digon o eglurder ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud i ddatrys y materion hyn, gan gydnabod wrth gwrs bod datrysiadau'n aml y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth. Efallai y byddai Cyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn ei chael yn ddefnyddiol arsylwi ar gyfarfodydd Byrddau a phwyllgorau yng nghyrff eraill y GIG i ddysgu o'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir mewn cyrff eraill.

24 Mae papurau a gyflwynir i'r Bwrdd a Phwyllgorau o ansawdd da ar y cyfan, ond mae cyfle i'w gwneud yn fyrrach trwy gynyddu'r ffocws ar ddadansoddi, yn hytrach na gwybodaeth gyd-destunol. Mae adborth gan Gyfarwyddwyr Anweithredol yn awgrymu eu bod yn hapus gydag ansawdd papurau a gyflwynir ond yr hoffent weld crynodebau gwell yn y papurau eglurhaol i'w galluogi i ganolbwyntio ar y materion pwysicaf. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn bwriadu cryfhau prosesau i helpu i sicrhau bod papurau'n darparu ffocws ac yn cwrdd â disgwyliadau ac anghenion Cyfarwyddwyr Anweithredol.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd da o storïau cleifion a staff i alluogi'r Bwrdd a Phwyllgorau i ddeall profiadau'r rhai sy'n cael gofal ac yn gweithio yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Bwrdd yn dal i ganolbwyntio bob yn ail ar storïau staff neu gleifion ym mhob cyfarfod, sy'n helpu i roi ffocws i'r drafodaeth. Mae pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch (QuESt) a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn clywed storïau cleifion a staff yn y drefn honno. Mae Uwch Swyddogion yn cofnodi ac yn gweithredu ar unrhyw wersi sy'n codi o'r rhain. Mae Adroddiad Profiad Cleifion Chwarterol y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch yn amlinellu gwaith Tîm Profiad Cleifion yr Ymddiriedolaeth a'r dull o gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â chleifion ond maent yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar yr ymatebion cadarnhaol a gafwyd. Er bod rhai cyfrifon o brofiad gwael gan gleifion sy'n ddigon i sobri rhywun, cyfyngedig yw'r naratif a ddarperir o ran ymateb i rai o'r pryderon a godwyd (gweler **Argymhelliad 2**).

26 Mae sioeau teithiol y Prif Weithredwr, a gynhelir ledled Cymru, a Gwobrau Gwasanaethau'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r Bwrdd ymgysylltu'n uniongyrchol â staff a chlywed ganddynt. Fe beidiodd teithiau ar y cyd mewn ambiwlansys ac

ymweliadau â gorsafoedd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Er bod rhai ymweliadau wedi ailddechrau'n ddiweddar, megis ymweliad y Bwrdd ag Ysbyty Maelor ym mis Gorffennaf 2022, nid yw gweithgarwch ymgysylltu wedi ailddechrau i'r un lefelau â chyn y pandemig eto, a cheir amrywiad yn lefelau'r gweithgarwch a gyflawnir rhwng aelodau'r Bwrdd. Fe wnaeth ein hadroddiad ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer ymweliadau o'r fath i sicrhau cwmpas gwell a bod adborth yn cael ei gasglu'n well.

## Dyluniad sefydliadol

27 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac a oes ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg;
- a oes eglurder ynghylch rôl Ysgrifennydd y Bwrdd, ac a oes adnoddau digonol yn eu lle i ategu gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
- a yw'r strwythur sefydliadol yn ategu llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso trefniadau gweithio system-gyfan.

28 Canfuom **fod y dyluniad sefydliadol yn dal i ategu busnes yr Ymddiriedolaeth, a bod newidiadau diweddar ac sydd ar ddod ar lefel arweinwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol.**

29 Mae cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gweithredol i'w gweld yn eglur, ac mae ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg. Mae tri Chyfarwyddwr newydd (Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Digidol) wedi cael eu penodi i'r Ymddiriedolaeth dros y misoedd diwethaf, ynghyd â Chadeirydd newydd a Chyfarwyddwr Anweithredol newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn y broses o geisio Is-Gadeirydd newydd. Er bod y newidiadau hyn yn sylweddol, ymddengys eu bod wedi cael eu rheoli'n dda gan yr Ymddiriedolaeth sydd wedi parhau i gynnal sefydlogrwydd. Mae newidiadau i bortffolios Cyfarwyddwyr dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys cynnydd yn nifer y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth o bump i chwech dan reoliadau newydd.[3] Fe arweiniodd hyn at ychwanegu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau fel Cyfarwyddwr Gweithredol. Daeth y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn swydd ar lefel Weithredol yn ystod y flwyddyn hefyd, yn lle Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r uwch dîm rheoli ehangach yn ymgysylltu â chyfarfodydd wythnosol gan y Tîm Rheoli Gweithredol i oruchwylio busnes gweithredol ac mae adborth yn awgrymu bod y cyfarfodydd hyn yn gweithio'n dda.

[3] Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r GIG (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2022

30 Ceir eglurder ynghylch rôl Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n arwain gwaith i gryfhau trefniadau gan gynnwys datblygu cylchoedd busnes, cryfhau'r trefniadau ar gyfer cofnodi rhoddion a rheoli risg. Fodd bynnag, mae cynnydd y rhaglen hon yn ddibynnol ar gapasiti y mae pen draw iddo o fewn Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae capasiti cyfyngedig yn cael effaith mewn rhai meysydd trwy gyfyngu ar gydnerthedd y tîm i sicrhau bod polisïau a risgiau'n cael eu hadolygu'n amserol. Fe gododd ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth bryderon ynghylch capasiti'r Ymddiriedolaeth i gefnogi trefniadau i reoli risgiau gweithredol hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol yn ddiweddar ac mae'n ceisio recriwtio Swyddog Risg a allai helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

31 Mae gan yr Ymddiriedolaeth strwythur sefydliadol sefydlog, gyda'i thimau gweithredol wedi'u strwythuro i gyd-fynd â phob un o ardaloedd y saith Bwrdd Iechyd. Ni chawsom ein gwneud yn ymwybodol yn ystod ein gwaith maes o unrhyw newidiadau sylweddol i'r strwythurau gweithredol nac o unrhyw faterion o ran y ffordd y mae'r sefydliad wedi'i strwythuro ar hyn o bryd.

## Systemau sicrwydd

32 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwylio risgiau a pherfformiad sefydliadol ac ansawdd gwasanaethau, yn craffu arnynt ac yn eu herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol yn ei le, a adolygir ac a berchnogir yn weithredol gan y Bwrdd;
- a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
- a weithredir yn effeithiol i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwiliadau ac adolygiadau.

33 Canfuom fel a ganlyn: **er bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei systemau sicrwydd gydag adolygiadau rheolaidd o risg, mae angen gwaith pellach i ddeall a yw camau lliniarol yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni eu heffaith fwriadedig ar risgiau a heriau sylweddol a pharhaus.**

34 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2021-22. Mae'r fersiwn newydd yn fwy manwl a chynhwysfawr, gyda llawer mwy o ddisgrifiad o'r rheolaethau a sicrwydd sy'n bodoli. Ar hyn o bryd mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn codi ei brif risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac yn eu mapio i ganlyniadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 ac felly, trwy estyniad, risgiau strategol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw wedi'i alinio â strategaeth hirdymor ehangach yr Ymddiriedolaeth eto ac nid yw'n cysylltu â rheolaethau a sicrwydd mewn perthynas â'r system ehangach. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'n glir sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro risgiau a'r rheolaethau lliniarol cysylltiedig, ond ar hyn o bryd dim ond sicrwydd cyfyngedig y mae'n ei

ddarparu ynghylch effaith y rheolaethau o ran pa un a ydynt yn lleihau'r risgiau'n effeithiol. Er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn eitem sefydlog ar agendâu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau, mae angen pennu ffocws gwell ar gyfer trafodaethau ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effaith rheolaethau o ran lleihau'r risgiau strategol sy'n wynebu'r sefydliad.

35 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiwygio'i Fframwaith Risgiau Corfforaethol yn 2020 ac mae'n dal i'w gryfhau trwy ei rhaglen trawsnewid risgiau. Mae risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan ddefnyddio fformat 'os, yna, gan arwain at' sy'n darparu mwy o eglurder a ffocws ar effaith bosibl pob risg. Mae pob pwyllgor yn cael ac yn trafod y risgiau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith hwy ym mhob cyfarfod, gydag unrhyw faterion yn cael eu huwchgyfeirio trwy adroddiadau ar y prif bwyntiau ar gyfer y Bwrdd. Fodd bynnag, er eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, mae nifer o risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi aros yn llonydd neu wedi dirywio dros y misoedd diwethaf, sy'n awgrymu nad yw camau gweithredu i liniaru risgiau'n cael yr effaith a fwriadwyd. Er bod hyn, yn rhannol, i'w briodoli i'r ffaith bod pwysau a phartneriaid allanol yn effeithio ar y risgiau, rhaid i'r Ymddiriedolaeth gymhwyso her gadarn i sicrhau bod ei chamau gweithredu lliniarol yn cael yr effaith fwyaf. Er bod adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar reoli risg a sicrwydd wedi darparu sgôr sicrwydd rhesymol ar y cyfan, fe wnaeth y gwaith amlygu bylchau mewn goruchwyliaeth a dull anghyson o adolygu risgiau ar lefelau cyfarwyddiaethau a gweithredol. Mae swyddogion yn adolygu cofrestrau risgiau corfforaethol cyrff eraill y GIG yng Nghymru'n rheolaidd i ddeall sut y mae cyrff eraill yn ceisio lliniaru risgiau ehangach mewn perthynas â gofal heb ei drefnu sy'n effeithio ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cael sicrwydd bod y camau a gymerir i ymdrin â'r risgiau'n cael yr effaith a fwriadwyd.

36 Mae methiannau a phwysau'r system ehangach wedi golygu bod yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn wynebu materion digynsail o ran perfformiad a phryderon cysylltiedig ynghylch ansawdd sy'n arwain at niwed osgoadwy i gleifion. Mewn ymateb, mae angen i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth wneud popeth o fewn rhychwant ei reolaeth i wella'r ffordd y mae gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth ei hun yn gweithredu, gan gynnwys dylanwadu'n gryf ar ei phartneriaid a rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag achos gwasanaethau gwael a chanlyniadau gwael i gleifion ar y cyd. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:

- Cyrraedd y lefel uchaf (pedwar) yn fframwaith Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau (REAP) yr Ymddiriedolaeth a hynny'n fynych.
- Perfformiad sy'n waeth ac yn dirywio mewn perthynas â galwadau coch ac ambr. Nid yw'r targed ar gyfer cyrraedd 65% o'r galwadau sy'n perthyn i'r categori coch (lle mae bywyd yn y fantol) wedi cael ei gyrraedd ers mis Gorffennaf 2020. 48% oedd y perfformiad ym mis Hydref 2022. Ar gyfer galwadau sy'n perthyn i'r categori ambr (difrifol, ond bywyd ddim yn y fantol), un awr, 42 munud oedd perfformiad canolrifol ym mis Hydref 2022 gyda'r 95^ed^ ganradd o alwadau'n aros am bron i naw awr.

- Yn ystod 2022, fel rheol mae 25-35% o ymateb 999 rheng-flaen yr Ymddiriedolaeth wedi profi oedi y tu allan i'r ysbyty gan fethu ag ymateb i alwadau yn y gymuned. Collwyd 28,937 o oriau oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion ym mis Hydref 2022.
- Ceir cynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol a arweiniodd at farwolaeth annisgwyl neu osgoadwy neu niwed difrifol.

37 Yn ddiweddar fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei Fframwaith Perfformiad ac Ansawdd a gwella'r dadansoddiad o berfformiad gweithredol a ddarperir yn ei Hadroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio datblygu metrigau ansawdd gwasanaeth, ond ar hyn o bryd nid yw'n gallu cysylltu ei systemau â systemau Byrddau Iechyd. Mae hyn yn golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu gweld y canlyniad i gleifion yn rhwydd ar ôl eu trosglwyddo, sy'n bryder arbennig os yw cleifion risg-uchel wedi aros am amser hir am ambiwlans. Mae'r broses barhaus i gyflwyno'r system Cofnodion Clinigol Cleifion electronig wedi'i bwriadu i ddatrys hyn ac yn y pen draw gwella ehangder yr oruchwyliaeth a sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau.

38 Fe wnaeth ein hadroddiad ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth amlygu bod cynnydd da'n cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau gwella ansawdd a gwella gweithrediad y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch a'r modd y rheolir pryderon mewnol. Fodd bynnag, canfuom yr angen i'r Ymddiriedolaeth wella'i chapasiti rheoli risg, mynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o adolygiadau o farwolaethau, a sicrhau bod archwiliadau clinigol yn fwy gweledol. Yn ystod 2022 adroddodd yr Uned Gyflawni ar wendidau sylweddol yn y broses ar gyfer hysbysu ynghylch digwyddiadau ar draws ffiniau sefydliadol, a adwaenir fel adroddiadau Atodiad B, y gwnaethom amlygu bod angen i'r Ymddiriedolaeth weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â hwy i sicrhau gwelliannau ar draws y system. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion ein hadroddiad.

39 Mae offer tracio argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn bosibl goruchwylio argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol ac allanol a chyrff eraill, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r offeryn tracio'n egluro'n gyson beth yw'r rhesymau pam fo rhai camau gweithredu'n hwyr yn cael eu cymryd, pa gynnydd a gyflawnwyd hyd yma os o gwbl a/neu pa un a oes gan gamau gweithredu ddyddiad cwblhau arfaethedig newydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal adolygiad lefel uchel o'r offeryn tracio'n rheolaidd, ond mae cyfle i aelodau'r Pwyllgor ganolbwyntio'n fwy ar archwilio pa un a yw argymhellion y nodwyd eu bod 'wedi'u cwblhau' wedi cyflawni eu heffaith fwriadedig. Gellid cyflawni hyn trwy wahodd yr uwch arweinwyr perthnasol i'r Pwyllgor Archwilio i adrodd ar gynnydd.

# Trefniadau cynllunio strategol

40 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei weledigaeth ac amcanion strategol;
- ei Gynllun Tymor Canolig Integredig;
- ei drefniadau cynllunio; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

41 Canfuom y **ceir dulliau da ar gyfer datblygu cynlluniau, ond bod angen ffocws cryfach ar ymgysylltu â staff a phartneriaid a mwy o her mewn perthynas ag effaith cynlluniau o ran cefnogi gwelliannau mewn perfformiad.**

## Gweledigaeth ac amcanion strategol

42 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor yn eu lle ar gyfer y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a yw'r strategaeth hirdymor yn cael ei thanategu gan strategaeth glinigol hirdymor briodol.

43 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth strategol hirdymor dda sy'n canolbwyntio ar gefnogi iechyd poblogaeth Cymru a system ehangach y GIG.**

44 Fe gymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ei fframwaith strategol hirdymor (y Fframwaith) sy'n dwyn y teitl 'Cyflawni Rhagoriaeth, Ein Gweledigaeth ar gyfer 2030' ym mis Mawrth 2019. Mae gan y Fframwaith sylfaen gref gan ei fod yn tynnu ar ragfynegiadau manwl ynglŷn ag iechyd y boblogaeth. Mae'n disgrifio uchelgais yr Ymddiriedolaeth i addasu ei model gwasanaeth traddodiadol ac i reoli'r galw'n wahanol, gyda ffocws ar gynyddu ymgyngoriadau dros y ffôn a thriniaethau allan yn y gymuned a lleihau cludiant i'r ysbyty mewn ambiwlans. 'Gwrthdroi'r triongl' y mae'n galw'r dull hwn. Mae'r Fframwaith yn darparu digon o gyfeiriad i fod yn sail i bob ymarfer i ddiweddaru'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yn gadarnhaol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei huchelgeisiau hirdymor yn ddiweddar ac, o ganlyniad, mae wedi ailfframio rhai camau gweithredu penodol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

45 Mae Strategaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth 2020-2025 yn ategu'r Fframwaith hirdymor yn briodol trwy nodi'r prif sbardunau ar gyfer y newid yn y galw am

wasanaethau, gan gynnwys demograffeg a phatrymau afiechyd ar lefel y boblogaeth. Mae gan y strategaeth glinigol bedwar nod clinigol eglur, sef:

- Nod 1: Defnyddio arweinyddiaeth glinigol ragorol;
- Nod 2: Ymateb i anghenion gofal newidiol ein poblogaeth;
- Nod 3: Gwreiddio dull Gofal Iechyd Seiliedig-ar-Werthoedd; a
- Nod 4: Defnydd gwell o ddata clinigol a gwybodaeth glinigol.

46 Mae'r Strategaeth Glinigol yn nodi'n effeithiol beth yw'r strategaethau galluogi gofynnol a fydd yn ategu ei chynnydd, gan gynnwys strategaethau ansawdd, addysg a hyfforddiant a digidol yr Ymddiriedolaeth.

## Cynllun Tymor Canolig Integredig

47 Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer y cyfnod o 2022-2025. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a gyflwynwyd y CTCI o fewn y fframiau amser gofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- a gafodd y fersiynau drafft a therfynol o'r CTCI eu trafod, eu herio a'u cytuno gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno; ac
- a gafodd y CTCI gymeradwyaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

48 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cymeradwy a mantoledig sy'n ateb gofynion Llywodraeth Cymru.**

49 Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) mantoledig ar gyfer y cyfnod 2022-25 a oedd yn ateb gofynion Llywodraeth Cymru ac a sicrhaodd gymeradwyaeth Weinidogol. Darparwyd drafftiau ar gyfer amryw grwpiau Gweithredol a Phwyllgorau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys adolygiad gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod sesiwn ddatblygu ym mis Chwefror 2022, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Mawrth 2022. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo a chyflwyno'r fersiwn derfynol ym mis Mawrth 2022 yn unol â llinellau amser Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth comisiynwyr yr Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r CTCI trwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys hefyd[4].

50 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sylwadau cadarnhaol am aliniad y CTCI â chynllun y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ei hun, a ffocws da ar ofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd a gwella effeithlonrwydd y gweithlu trwy leihau absenoldeb oherwydd salwch. Amlygodd Llywodraeth Cymru rai meysydd i'w gwella hefyd, yn

[4] Cydbwyllgor gan yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, sydd â chyfrifoldeb am gynllunio a sicrhau gwasanaethau ambiwlans digonol ar gyfer y boblogaeth.

enwedig o ran yr angen i'r Ymddiriedolaeth fod yn fwy uchelgeisiol gyda'i thaflwybrau gwella perfformiad, cynlluniau ar gyfer ennill statws athrofaol a chyflawni trefniadau cydweithio cryfach gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

## Trefniadau cynllunio

51 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar y broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus a seiliedig-ar-werthoedd yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol; ac
- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi cael eu datblygu gan gynnal cyswllt â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol;

52 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rhesymol i ddatblygu cynlluniau allweddol, er ei bod yn cydnabod bod cyfle i gynyddu ymwneud gan staff a chryfhau ymrwymiad partneriaid.**

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â phroses effeithiol ar gyfer datblygu ei CTCI, y mae'n mynd ati'n weithredol i geisio'i wella'n barhaus. Roedd proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu'r CTCI 2022-25 yn gynhwysfawr ac roedd yn cynnwys:

- asesu cyflawniadau'r fframwaith strategol hirdymor;
- adolygu cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed yn y CTCI blaenorol; ac
- ystyried pwysau newydd a chyfredol trwy'r Tîm Rheoli Gweithredol a sesiynau datblygu'r bwrdd.

54 Er bod ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio'r CTCI wedi bod yn effeithiol am beth amser, eleni cydnabu'r Ymddiriedolaeth hefyd fod angen i'w threfniadau fod yn fwy hyblyg i ymateb i bwysau gweithredol eithafol. O ganlyniad, mae CTCI 2022-25 bellach yn fwy eglur ynglŷn â blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth a pha gamau gweithredu ellir oedi gyda hwy os yw pwysau gweithredol yn rhoi straen sylweddol ar adnoddau. Fodd bynnag, ers 2019, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi alinio cynlluniau tanategol ar lefel cyfarwyddiaethau i oleuo datblygiad y CTCI ond mae'n bwriadu cywiro hyn ar gyfer cynllun 2023-26.

55 O ran trefniadau cynllunio ehangach, cymysg yw'r sefyllfa lle mae cynnydd yn y cwestiwn. Bu oedi gyda'r Strategaeth Pobl a Diwylliant ddiwygiedig ac nid yw gwaith ar adnewyddu Cynllun Iechyd y Cyhoedd 2019-22 wedi dechrau eto. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gymeradwyo'i strategaeth gwirfoddolwyr ym mis Medi 2021. Mae'r strategaeth hon, a ddatblygwyd gan gynnwys gweithgorau o wirfoddolwyr, wedi'i bwriadu i apelio at wirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr. Fodd bynnag, ni chafodd ei chostio'n ariannol pan gafodd ei chymeradwyo sy'n ei gwneud hi'n anodd gwybod a yw'n fforddiadwy. Mae cyfle hefyd i egluro'n well sut y bydd yn cael ei chyflawni a'i monitro. Er bod y

strategaeth gwirfoddolwyr wedi'i chrynhoi o fewn y CTCI, nid oes cyfeiriadau clir at y camau gweithredu yn y CTCI ar gyfer 2022-25.

56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod hefyd y dylai wneud mwy i ymgysylltu â staff wrth baratoi cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Mae wedi datblygu crynodeb un dudalen o'i CTCI ar gyfer staff a'r cyhoedd, sydd ar gael trwy ei gwefan gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n anochel bod y pandemig wedi arwain at lai o ymwneud gan staff â'r broses o gynllunio'r CTCI (gweler **Argymhelliad 4**).

57 Mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol, rydym wedi amlygu nad yw partneriaid yr Ymddiriedolaeth wastad yn ymrwymo'n iawn i'w huchelgeisiau trawsnewid gwasanaethau sylweddol a'r angen i foderneiddio gwasanaethau. Mae hyn yn dal i fod yn risg y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohoni ac yn ceisio'i lliniaru. Er enghraifft, mewn ymateb i'r pwysau gweithredol sylweddol parhaus, fe gyflwynodd yr Ymddiriedolaeth 'gynllun trosiannol' i'w chomisiynwyr ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer gwella yn seiliedig ar addasu modelau gwasanaeth yn unol â'i gweledigaeth hirdymor. Roedd awch amrywiol am y cynllun ymhlith y comisiynwyr ac ni chafodd ei fabwysiadu ar y ffurf honno ar yr adeg honno. Er y bwriwyd ymlaen â rhai mentrau gyda Byrddau Iechyd unigol. roedd yr anallu i symud ymlaen yn genedlaethol yn siom i'r Ymddiriedolaeth. Mae fframwaith ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn nodi'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu ynghylch ei gweledigaeth strategol hirdymor. Er bod y ddogfen yn cynnwys egwyddorion lefel uchel, mae cynlluniau manwl i fod i gael eu cyhoeddi'n gynnar yn 2023. Bydd y cynlluniau manwl hyn yn hollbwysig i ddarparu'r cyfeiriad defnyddiol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â phartneriaid allweddol a chynnal deialog effeithiol gyda hwy (gweler **Argymhelliad 5**).

58 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i roi egwyddorion gofal iechyd darbodus a seiliedig-ar-werthoedd ar waith. Mae wrthi'n gweithio gyda'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a'r Uned Cyflawni Ariannol i ddatblygu strategaeth a dull ar gyfer gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd sy'n cysylltu canlyniadau, profiad cleifion a defnydd o adnoddau. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth ffrydiau gwaith ariannol ym mis Medi 2022 ac fe sefydlodd weithgor gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd i oleuo'u gwaith. Rhaid iddi ddangos cynnydd o ran rhoi gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon o ystyried bod hynny'n un o'r amodau atebolrwydd allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a'i fod wedi'i gynnwys yn y blaenoriaethau a bennwyd gan ei chomisiynwyr trwy fwriadau comisiynu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

## Trefniadau cyflawni a monitro

59 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r broses, yn craffu ar y broses ac yn herio'r broses o roi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a'u cyflawni. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau a deilliannau clir sydd o gymorth i fonitro ac adrodd; ac

- a yw'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd tuag at gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

60 Canfuom fel a ganlyn: **er bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheolaidd ac integredig ar gyfer monitro'r modd y cyflawni'r cynlluniau allweddol, mae angen datblygu cynlluniau cyflawni eglur ac amserol i ategu ei dogfennau strategol**

61 Mae'r cynnydd gyda strategaethau a chynlluniau allweddol yn cael ei fonitro'n barhaus trwy drefniadau monitro CTCI yr Ymddiriedolaeth. Mae'r dull integredig hwn yn bosibl am bod y CTCI wedi'i alinio'n gryf â chynlluniau galluogol a gweithredol allweddol yn ogystal â'r fframwaith strategol hirdymor. Fodd bynnag, amlygodd ein hadolygiad ni o drefniadau llywodraethu ansawdd fod yr oedi rhwng cymeradwyo'r strategaeth ansawdd a pharatoi'r cynllun gwella dilynol wedi bod yn rhwystr i gyflawni rhai camau gweithredu allweddol. Mae hyn yn wir hefyd mewn perthynas â'r strategaeth glinigol. Byddai datblygu cynlluniau cyflawni'n gynharach o gymorth i gyrraedd nod strategol yr Ymddiriedolaeth, ac felly dylai achosion o oedi gael eu hosgoi lle bynnag y bo'n bosibl.

62 Mae camau gweithredu sydd i'w cyflawni fel rhan o'r CTCI yn rhai 'CAMPUS'[5] ac yn rhai fesul cyfnod ar draws tair blynedd y cynllun. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn monitro'r CTCI yn rheolaidd gan gynnwys adolygu offeryn tracio cyflawni'r CTCI ar gyfer yr holl gamau gweithredu yn 2022-23. Mae pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn monitro rhaglenni penodol sy'n rhan o waith y CTCI yn ystod eu busnes arferol, er enghraifft agenda ddatgarboneiddio'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael diweddariad manwl ar gynnydd gyda'r CTCI ac mae'r Bwrdd hefyd yn tracio cynnydd trwy adroddiad lefel uchel ar y prif bwyntiau. Mae hwn yn arbennig yn dynodi ble y mae cynnydd gyda'r CTCI ar y trywydd iawn a ble y mae angen oedi gyda chamau gweithredu i ryddhau capasiti i ymateb i bwysau gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu a gyflawnwyd, yn hytrach na'r canlyniad a gyflawnwyd, o ran cynnydd gyda'r CTCI. Roedd yn gadarnhaol gweld bod yr Ymddiriedolaeth, ym mis Tachwedd 2022, wedi dweud bod Pennaeth Trawsnewid newydd wedi cael ei benodi i weithio gyda'i Thîm Perfformiad i fapio'r manteision a wireddwyd yn ôl i raglenni trawsnewid i ganfod lle y bo'n bosibl gyfraniad y rhaglen at y mesurau hynny.

# Rheoli adnoddau ariannol

63 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ei hadnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gyflawni amcanion ariannol allweddol;

[5] CAMPUS – Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

- ei reolaethau ariannol; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

64 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd dda at gynllunio, rheoli ac adrodd ariannol; fodd bynnag, mae cyfleoedd i leihau'r aneffeithlonrwydd sylweddol a achosir gan bwysau allanol y system.**

## Amcanion ariannol

65 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth:

- wedi cyflawni ei hamcanion ariannol ar gyfer 2021-22, ac a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2022-23; ac
- yn meddu ar gynllun ariannol eglur a chadarn, sy'n cynnwys cynlluniau arbedion a gwella costau realistig a chynaliadwy.

66 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i gyflawni ei dyletswyddau ariannol a'i bod yn canolbwyntio'n fwyfwy ar arbedion cylchol a thrawsnewidiol, er bod y rhain yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan aneffeithlonrwydd costus a achosir gan bwysau'r system**

67 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gynnal hanes da o gyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2020-21, a thros y cyfnod treigl o dair blynedd. Ar gyfer 2021-22, cofnododd warged bach, cafodd ei gwariant cyfalaf ei gyflawni'n llawn yn unol â chynlluniau wedi'u diweddaru, ac fe gyflawnodd arbedion o £2.861 miliwn yn erbyn targed o £2.800 miliwn. O ran y sefyllfa ym Mis 7, 2022-23, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi y bydd wedi adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaethau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl gostau eithriadol.

68 Er bod perfformiad ariannol yn dal i fod yn gryf ar hyn o bryd, ceir risgiau ariannol mwy yn y flwyddyn ariannol hon gyda phwysau cynyddol o ran costau mewn perthynas â chyfleustodau, tanwydd, absenoldeb oherwydd salwch, ac oedi wrth drosglwyddo cleifion. Disgrifir y risgiau hyn yng nghynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'i CTCI. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r risgiau hyn yn rhagweithiol, gan gynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a'i chomisiynwyr ynglŷn â thybiaethau cyllido, a chraffu'n fwy ar ei rhaglen arbedion ei hun

69 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £3 miliwn o gyllid anghylchol ar gyfer parafeddygon ychwanegol i gefnogi pwysau'r gaeaf. Fodd bynnag, mae cyllid byrdymor yn creu heriau o ran recriwtio a'r adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol i gefnogi recriwtiaid newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu cynlluniau i liniaru'r heriau hyn mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru.

70 Er mwyn ceisio hyblygrwydd ariannol pellach i fynd i'r afael â materion o ran perfformiad ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ar drywydd mynediad at arian ychwanegol sydd ar gael ledled Cymru, megis y Gronfa Gofal Sylfaenol[6] ac arian sydd ar gael trwy'r Rhaglen Chwe Nod. Byddai mynediad at gyllid o'r fath yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i fynd ar drywydd rhai o'r mentrau gwella a ddisgrifir yn ei chynllun pontio i leddfu pwysau ym maes gofal heb ei drefnu a lleihau oedi o ran ymateb ambiwlansys. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gymwys i ymgeisio am gyllid o'r fath ar hyn o bryd.

71 Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen arbedion o £4.3 miliwn sy'n canolbwyntio ar arbedion cylchol a thrawsnewidiol trwy effeithlonrwydd, cydweithio a chyfleoedd i roi gwasanaethau ar gontract allanol. Fodd bynnag, rydym wedi amlygu'n flaenorol bod risgiau'n bodoli mewn perthynas â dibyniaeth yr Ymddiriedolaeth ar arbedion anghylchol, yn enwedig trwy reoli swyddi gwag. O ran y sefyllfa ym Mis 7, roedd tanwariannau'n dal i gael eu sbarduno'n bennaf gan swyddi a gyllidir sy'n wag. Ym mis Gorffennaf 2022, fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth bedair ffrwd waith ariannol sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i gyflawni rhaglen arbedion gynaliadwy sydd â'i gwreiddiau mewn trawsnewid. Mae'r pedair ffrwd waith yn cwmpasu meincnodi gwerth, cyflawni effeithlonrwydd, creu incwm ac arfer gorau. Dylai'r ffrydiau gwaith hyn gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i symud i ffwrdd oddi wrth arbedion trafodaethol traddodiadol a'i chynorthwyo i oresgyn heriau ariannol yn awr ac yn y dyfodol.

72 Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn achosi aneffeithlonrwydd sylweddol hefyd. Oddeutu £166 yr awr, yn ôl amcangyfrif yr Ymddiriedolaeth, yw'r gost wrth yr awr sy'n deillio o oedi wrth drosglwyddo. Ym mis Medi 2022 yn unig, roedd colli oddeutu 25,000 o oriau'n cyfateb i effaith o ran cyfanswm y gost o oddeutu £4 miliwn. Os bydd oedi wrth drosglwyddo cleifion yn dal i gynyddu yn ôl y cyfraddau cyfredol, gallai cost dybiannol capasiti a gollwyd fod gyfateb i gymaint â £50 miliwn am y flwyddyn lawn. Ni fyddai cael gwared ar drosglwyddiadau gohiriedig yn rhyddhau'r cyfanswm arian parod hwn o ystyried bod angen lefelau staffio craidd drwy'r amser. Fodd bynnag, mae maint yr aneffeithlonrwydd yn golygu bod llawer mwy o staff yn anghynhyrchiol ac yn methu â chael eu lleoli'n gadarnhaol nag y byddai eu hangen fel arall. Mae aneffeithiolrwydd o'r fath ar draws y system yn gorfod cael ei ategu, yn rhannol, gan fuddsoddiad pellach mewn staff parafeddygol ychwanegol hefyd i geisio gwrthbwyso effaith oedi wrth drosglwyddo cleifion ar berfformiad.

## Rheolaethau ariannol

73 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi a rheoli'r defnydd o'i hadnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

[6] A hithau wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2015-16, mae'r Gronfa Gofal Sylfaenol yn rhoi cymorth i roi'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol ar waith

- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
- a yw'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal goruchwyliaeth briodol ar drefniadau a pherfformiad mewn perthynas â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion ac atal twyll;
- a oes trefniadau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith; ac
- a gyflwynwyd datganiadau ariannol ar amser, ac a oeddent yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

74 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer rheoli a rheolaeth ariannol.**

75 Mae'r Bwrdd yn goruchwylio cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn effeithiol, ac yntau wedi eu hadolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2022. Nid yw systemau a rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth wedi newid ers y llynedd. Mae Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth am golledion a thaliadau arbennig yn ei sesiwn gyhoeddus ac am atal twyll a thendrau sengl yn sesiwn breifat pob cyfarfod (gweler **Argymhelliad 1**). Nid adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio am unrhyw faterion arwyddocaol mewn perthynas â'r eitemau hyn eleni.

76 Fe gyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da i gael eu harchwilio erbyn y terfyn amser a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 29 Ebrill 2022, ac fe gafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn gynnar ym mis Mehefin. Canfu ein harchwiliad un camddatganiad nas cywirwyd, er bod hwn islaw'r lefel perthnasedd. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd, fe gyhoeddom ni farn archwilio ddiamod ar 15 Mehefin 2022.

## Trefniadau monitro ac adrodd

77 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio perfformiad ariannol y sefydliad, yn craffu arno ac yn ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau a risgiau ariannol allweddol a chamau lliniaru a gymerwyd; ac
- a yw aelodau'r Bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.

78 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro a goruchwylio'r modd y cyflawnir rhaglenni arbedion.**

79 Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio perfformiad ariannol ar lefel weithredol ac ar lefel y Bwrdd. Mae adroddiadau cyllid ac adroddiadau ar y prif bwyntiau o ran arbedion ac effeithlonrwydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r

Bwrdd Trawsnewid Strategol, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r Bwrdd yn cael yr adroddiad cyllid ym mhob chwarter hefyd.

80 Mae adroddiadau'n agored a thryloyw, gan amlygu'r sefyllfa gyfredol ac unrhyw risgiau allweddol y dylai aelodau fod yn ymwybodol ohonynt gan gynnwys risgiau neu gamau gweithredu lliniarol. Mae aelodau'n teimlo'u bod yn cael sicrwydd gan yr adroddiadau a bod ganddynt olwg ar faterion allweddol. Mae herio a welwyd yn ystod cyfarfodydd yn dangos ymagwedd bwyllog yr Ymddiriedolaeth at reoli ariannol.

# Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill

81 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn lefel-uchel am drefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ei hadnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gefnogi lles staff (sylwer y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cynllunio'r gweithlu);
- ei drefniadau i reoli ei adnoddau digidol; a hefyd
- ei drefniadau i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

82 Canfuom **fod angen gweithredu i sicrhau bod y gwaith cadarnhaol i gefnogi lles staff yn cael yr effaith a ddymunir a hefyd i gadw ffocws ar ostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch. Byddai'r broses o roi'r strategaeth ddigidol ar waith yn cael ei chryfhau gan oruchwyliaeth well ar y rhaglen ac eglurder ynghylch cyllid. Mae angen gwneud penderfyniadau strategol hefyd mewn perthynas ag anghenion tymor hwy o ran yr ystâd a datgarboneiddio.**

## Cefnogi lles staff

83 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi lles staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw mecanweithiau i geisio barn staff am eu hanghenion o ran lles yn effeithiol, ac a oes camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ymateb i ganfyddiadau; ac
- a yw camau gweithredu i gefnogi a gwella lles staff yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19[7].

[7] Archwilio Cymru, Gofalu am y gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19, Hydref 2021

84 Canfuom fel a ganlyn: **er bod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen lles ar gyfer staff, mae angen gwerthuso a deall pa mor dda y mae hon yn cefnogi staff ac yn gostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch.**

85 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos gwerthfawrogiad a dealltwriaeth eglur am y straen a brofir gan staff. Bu gan yr Ymddiriedolaeth gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch uwch yn hanesyddol na chyrff eraill y GIG yng Nghymru ac roedd y rhain ar eu lefelau uchaf erioed ym mis Rhagfyr 2021, sef 12.4%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i weithio i ymdrin ag absenoldeb byrdymor a hirdymor oherwydd salwch. Er bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng i lai na 9% ym mis Medi 2022, maent yn dal i fod yn uwch na chyfradd darged yr Ymddiriedolaeth, sef 8%, ac maent yn dal i fod yn achos pryder arbennig ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth mewn Gwasanaethau Meddygol Brys. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy'r prosiect 'gwella presenoldeb' sy'n adrodd wrth y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae gan y prosiect saith maes ffocws gan gynnwys lles, straen a gorbryder a chymorth gan reolwyr.

86 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystod o wasanaethau lles ar gyfer staff, gan gynnwys rhaglen cynorthwyo cyflogeion a Thîm Iechyd Galwedigaethol mewnol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau hefyd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir cael mynediad at y ddarpariaeth hon. Adroddir yn chwarterol ar weithgarwch lles staff wrth y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn nodi faint o staff sydd wedi ymgysylltu â'r gweithgareddau hyn. Ar ben hynny, nid yw'n cynnwys unrhyw werthusiad o effaith na sicrwydd bod anghenion staff yn cael eu diwallu ac y cyflawnir gwerth am arian (gweler **Argymhelliad 6**).

87 Fe wnaeth ein hadroddiad Gofalu am y Gofalwyr nifer o argymhellion i gyrff iechyd ynghylch lles staff. O ran y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2022, mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd rhesymol o ran rhoi'r argymhellion hyn ar waith: mae deg wedi cael eu cwblhau hyd yma; fodd bynnag mae'r wyth sy'n weddill yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith ac ni ddarparwyd unrhyw resymau ar gyfer chwe argymhelliad. Fel a drafodwyd ym **mharagraff 86**, er gwaethaf y gweithgarwch gwella lles, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn uchel iawn ar gyfer rhai grwpiau o staff ac mae'r arfarniadau sy'n cael eu cwblhau'n is na'r lefelau targed.

## Rheoli adnoddau digidol

88 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei hadnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau gofal newydd a ffyrdd newydd o weithio; ac
- a yw manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd.

89 Canfuom fel a ganlyn: **er bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli a monitro risgiau digidol a seiber allweddol yn fanwl, mae cyfle i gryfhau'r modd yr adroddir ar gynnydd gyda'i strategaeth ddigidol.**

90 Mae Strategaeth Ddigidol yr Ymddiriedolaeth yn ceisio'i gwneud yn bosibl gwella a moderneiddio gwasanaethau. Yn dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr Digidol ym mis Gorffennaf 2022, mae'r cyfarwyddwr interim wrthi'n adolygu'r strategaeth i ddeall a oes angen unrhyw ddiweddariadau ers ei chyhoeddi yn 2020. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi hefyd yn datblygu Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer technoleg ddigidol i gyd-fynd â Rhaglenni Amlinellol Strategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y Fflyd ac Ystadau.

91 Er ei fod yn beth cadarnhaol bod strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth yn ei lle a bod gweithgarwch ar y gweill i'w halinio â gwasanaethau galluogol allweddol eraill, mae angen eglurder pellach ynglŷn â sut y bydd y strategaeth yn cael ei chyllido. Mae'r strategaeth ddigidol yn cael ei chyllido trwy dri llwybr: proses CTCI yr Ymddiriedolaeth, yr adnodd data cenedlaethol yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Chronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y strategaeth heb egluro sut y byddai'n cael ei chyllido yn ei chyfanrwydd. Mae trefniadau staffio i'w gweld yn her hefyd. Yn ychwanegol at ei gwasanaeth digidol parhaus, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth i gyflawni'r strategaeth trwy gymysgedd o gapasiti ei thîm craidd a swyddi ychwanegol dros dro fesul prosiect unigol. O ystyried y prinder gweithlu digidol ledled Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth, yn gyffredin â chyrff eraill y GIG, yn cael bod recriwtio parhaol yn ogystal â recriwtio byrdymor ar gyfer ei gwasanaethau digidol yn her.

92 Caiff gwaith i roi'r strategaeth ddigidol ar waith ei reoli trwy'r Bwrdd Trawsnewid Strategol fel rhan o broses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro cynnydd gyda'r CTCI. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn adrodd yn erbyn y strategaeth ddigidol fel rhaglen, ond yn hytrach mae'n adrodd yn erbyn elfennau unigol, megis dadansoddeg data y cyflwynwyd adroddiad arni i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol ym mis Hydref 2022. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adrodd ar elfennau eraill yn y misoedd sydd i ddod. Gallai'r diffyg goruchwyliaeth ar y cyfan ei gwneud yn anodd i'r Ymddiriedolaeth ddeall effaith y strategaeth ddigidol yn ei chyfanrwydd o ran cynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol

93 Mae gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch rolau mewn perthynas â goruchwylio elfennau o weithgareddau digidol yr Ymddiriedolaeth. Er mai'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n goruchwylio'r rhan fwyaf o elfennau sy'n ymwneud â thechnoleg ddigidol, mae timau rheoli data'n adrodd ar wybodaeth am ddiogelwch gwybodaeth trwy'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth, sydd ar hyn o bryd yn un o is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch. Er y gallai hyn greu risg o ddryswch, ni chanfuom dystiolaeth bod y trefniant hwn yn arwain at ddyblygu na bylchau mewn goruchwyliaeth. Gallai adolygiad cyfredol yr Ymddiriedolaeth o Gylch Gorchwyl a llinellau adrodd y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth helpu i liniaru'r risg hon ymhellach. Hefyd, mae'r Bwrdd wedi dangos bod ganddo oruchwyliaeth effeithiol ar risgiau arwyddocaol

sy'n ymwneud â thechnoleg ddigidol, gan gynnwys y risg barhaus mewn perthynas â chyflawni rhaglen yn lle gwasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth.

## Rheoli'r ystâd ac asedau ffisegol eraill

94 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei hystâd ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaethau a chynlluniau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd adolygu prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol, craffu arnynt, eu herio a'u cymeradwyo; ac
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol ar gyflwr yr ystâd ac asedau ffisegol eraill.

95 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth ymagweddau effeithiol at ystadau a datgarboneiddio; fodd bynnag, rhaid iddi daro cydbwysedd rhwng cyfleoedd strategol ar y naill law a chwrdd â chostau cynyddol gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar y llaw arall a hynny yng nghyd-destun cyllid cyfalaf cyfyngedig.**

96 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd effeithiol at reoli ei hystadau yng nghyd-destun cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael. Yn 2021, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Ystadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn blaenoriaethu ei hystâd yn seiliedig ar amodau cyfredol posibl a chyfleoedd, manteision a threfniadau cydweithredol posibl. O'i dadansoddiad, mae'r lleoliadau â'r sgoriau gwaethaf (uchaf) wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith gwella / atgyweirio / amnewid fel y bo'n briodol. Mae costau gwaith cynnal a chadw ôl-gronedig yr Ymddiriedolaeth wedi aros yn weddol gyson ers 2018-19 gyda chynnydd bach o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae'r llwyddiant wrth gyflawni'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Ystadau'n ddibynnol ar gymeradwyaeth amserol i geisiadau ar gyfer cyllid cyfalaf dewisol ac argaeledd cyllid cyfalaf dewisol sydd wedi lleihau 24%. Mae'r diffyg mewn cyfalaf dewisol yn arwain at raglen lai a phwyslais cynyddol ar flaenoriaethu'r safleoedd â'r risgiau uchaf.

97 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun gweithredu datgarboneiddio i leihau allyriadau 34% erbyn 2030. Mae'r cynllun yn helaeth gyda thros gant o gamau gweithredu. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn asesu cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu'n rheolaidd. Ym mis Tachwedd 2022, yn dilyn hunanasesiad, rhoddwyd sgôr dangosol coch/ambr i'r cynnydd gyda'r cynllun, gyda chamau cywirol yn cael eu rhoi ar waith. Mae ystadau'n rhan arwyddocaol o broses ddatgarboneiddio'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod tensiwn a chydbwysedd rhwng cyrraedd y targedau yn ei chynlluniau datgarboneiddio a chyflawni prosiectau ar gyfer ystadau ac asedau. Adlewyrchir hyn yn y gwaith i

ddatblygu achos busnes ar gyfer yr orsaf newydd yn Abertawe lle mae'r holl opsiynau a chostiadau'n cael eu trafod.

# Atodiad 1

## Ymagwedd archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer gwneud ein gwaith asesu strwythuredig yn yr Ymddiriedolaeth.

**Arddangosyn 2: ymagwedd archwilio**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Arsylwadau | Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol:<br>• Y Bwrdd, Mawrth 2022 a Gorffennaf 2022;<br>• Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Mai 2022<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch, Mai 2022<br>• Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Gorffennaf 2022<br>• Y Pwyllgor Archwilio, Mawrth 2022 a Medi 2022 |

| Elfen o’r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau;<br>• Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau o Roddion a Lletygarwch;<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• Adroddiadau allweddol sy’n ymwneud â pherfformiad a materion ariannol y sefydliad;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• Polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| | |
|---|---|
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a Chyfarwyddwyr Anweithredol canlynol:<br>• Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth (o fis Gorffennaf 2022)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch (QuESt)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Y Prif Weithredwr,<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid<br>• Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd<br>• Y Cyfarwyddwr Digidol; a hefyd<br>• Y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans. |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

98 Bydd **Atodiad 2** yn cael ei gwblhau unwaith y bydd ymateb y rheolwyr wedi dod i law.

**Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu gweinyddol**<br>A1 Rydym wedi adnabod cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth gynyddu tryloywder ymhellach trwy gryfhau trefniadau llywodraethu gweinyddol trwy:<br>a) Sicrhau bod papurau pwyllgorau cyn cyfarfodydd a chofnodion yn dilyn diwedd | a) Cytuno | a) Ar unwaith ar gyfer cyhoeddi papurau pwyllgorau'n amserol ac erbyn 1 Ebrill 2023 ar gyfer cofnodion i ganiatáu amser i sefydlu'r storfa ar y wefan. | a) Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol i wefan yr Ymddiriedolaeth;<br>b) Gwella'r modd y cofnodir camau gweithredu gan y Cadeirydd a phenderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat, er enghraifft trwy nodi'r costau a'r risgiau i gyflawni mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed;<br>c) Darparu'r datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch fel dogfen benodol sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld; a<br>d) Ailystyried cael yr holl wybodaeth atal twyll yn sesiwn breifat y pwyllgor archwilio. | b) Cytuno. Bydd gwybodaeth lawnach am benderfyniadau'n cael ei darparu.<br>c) Cytuno<br>d) Yn sgîl y ffaith bod adroddiad y gwasanaeth atal twyll lleol yn cynnwys gwybodaeth sensitif fel rheol bydd yn aros yn y sesiwn breifat; fodd bynnag bydd yr adroddiad Rhybuddio, Hysbysu a Sicrhau (AAA) ar y prif bwyntiau gan y Pwyllgor Archwilio i sesiwn gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn darparu naratif estynedig ar y materion a drafodir gan gynnwys unrhyw fetrigau perthnasol. | b) Ar unwaith<br>c) 1 Ebrill 2023<br>d) 30 Mawrth 2023 | b) Ysgrifennydd y Bwrdd<br>c) Ysgrifennydd y Bwrdd<br>d) Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol |
| **Adrodd ar brofiad cleifion** | a) Cytuno | Medi 2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A2 Gwella'r modd yr adroddir yn chwarterol ar brofiad cleifion wrth y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (QuESt) trwy sicrhau cydbwysedd rhwng adborth cadarnhaol a negyddol a darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r themâu negyddol sy'n codi yn yr adroddiad. | | | Ansawdd a Nyrsio |
| **Cynnwys staff yn y broses o ddatblygu cynlluniau allweddol yn y dyfodol**<br>A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei chynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys y CTCI, yn cael eu datblygu gyda staff ac yn cael eu goleuo ganddynt. | Wedi'i dderbyn. Mae hyn wedi digwydd ar gyfer datblygu'r CTCI 2023-26 gydag ymgysylltu eang â staff a rhanddeiliaid | Wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Datblygu cynlluniau cyflawni ymgysylltu**<br>A4 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ei fframwaith ymgysylltu lefel-uchel yn ddiweddar, dylai geisio mynd ati ar frys i gyhoeddi a chyflawni cynlluniau manwl i roi cymorth iddi ddarparu ymgysylltiad allanol mewn perthynas â phwysau'r system gofal heb ei drefnu. | Mae cynllun cyflawni fesul cam i fod i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu negeseuon/cynulleidfaoedd/camau graddol dangosol ac ymagweddau dros y 18 mis i ddwy flynedd nesaf.<br>Bydd y glo mân sy'n nodi pwy, beth a ble o ran yr amserlen yn cael ei ddatblygu wedyn a'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol . | Ionawr 2023 i'r Bwrdd<br><br>Cynllun wedi'i amserlennu i'r TRhG Chtr 1 2023/24 | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu |
| **Sicrhau bod gwasanaethau lles staff effeithiol yn cael eu gwerthuso**<br>A5 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi lles staff, nid yw'n ei gwerthuso nac yn ei hadolygu'n ddigonol ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion staff. Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno proses reolaidd i werthuso'i gwasanaethau lles staff, megis trwy arolygon pwls | • Cynhaliwyd arolwg lles yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar y cyd â Phrifysgol Abertawe (PA); mae'r adroddiad wedi dod i law bellach ac mae i fod i gael ei gyflwyno i'r UDRh yn fuan – mae hwn yn darparu mewnwelediad a thystiolaeth ansoddol sy'n werthfawr o ran ein harlwy lles ar hyn o bryd ac mae'n nodi'r meysydd y mae angen mwy o ffocws arnynt yn enwedig yr angen i deilwra ymyriadau yn seiliedig ar ystod o ffactorau.<br>• Mae holiaduron adborth wedi cael eu rhoi ar waith o fis Rhagfyr 2022 i'r holl staff sy'n | Chwefror 2023<br><br>O fis Ionawr 2023 ymlaen | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (cyflawnir gan Catherin Goodwin) |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| neu holiaduron i gyfranogwyr. Dylai’r gwerthusiad hwn oleuo penderfyniadau hirdymor ynglŷn â buddsoddi ar gyfer gwasanaethau o’r fath. | defnyddio ein gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Lles. Bydd y data o'r holiaduron hyn yn cael ei adolygu'n fisol o fewn Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a bydd yn bwydo i mewn i’r diweddariadau rheolaidd a ddarperir ar gyfer y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Sefydlwyd mecanweithiau hefyd i gael adborth a gwerthusiad o’r effaith pan fo cydweithwyr yn cael eu rhyddhau o wasanaethau penodol er enghraifft Fitback (Gwasanaeth Ffisiotherapi) a NOSS (Cwnsela ynghylch Trawma) – Chwe 2023 ymlaen<br>• Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi’u sefydlu gyda darparwyr gwasanaethau (FitBack, Health Assured, NOSS, Caer Health, Thrive) ac mae adroddiadau data misol yn cael eu hadolygu’n rheolaidd er mwyn deall tueddiadau a themâu o ran y niferoedd sy’n eu defnyddio a bylchau (i’w gwneud yn bosibl gwneud gwaith hyrwyddo | O fis Chwefror 2023 ymlaen | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | wedi'i dargedu, er enghraifft yn ôl rôl ac ardal ddaearyddol).<br>• Cynhelir cyfarfodydd Tîm Iechyd Galwedigaethol a Lles pythefnosol lle mae aelodau'r tîm yn darparu adborth ansoddol ar ddarparu'r gwasanaeth ac yn rhannu adborth gan staff sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth – yn barhaus<br>• Bydd metrigau lles penodol yn cael eu datblygu fel rhan o adran werthuso'r cynllun pobl a diwylliant ar gyfer 2023-26 – bydd y rhain yn cynnwys mesurau megis arbedion o ran costau sy'n gysylltiedig â ffigyrau absenoldeb oherwydd salwch is, lefelau ymgysylltu gwell ac ymyrryd yn gynnar i alluogi cydweithwyr i aros yn y gwaith<br>• Bydd arolygon dilynol yn cael eu cynnal i adnabod y defnydd o wasanaethau lles, bylchau a'r effaith ddwywaith y flwyddyn.<br>• Bydd cyfranogiad yn y Safon Iechyd Corfforaethol Aur yn sicrhau ffocws parhaus ar werthuso ac asesu effaith y gwahanol ymyriadau a gynigir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. | Yn barhaus<br><br>O fis Ebrill 2023 ymlaen<br><br>Mehefin 2023 a Rhagfyr 2023<br><br>O fis Mawrth 2023 ymlaen | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.